# Ymwelwyr a theithiau

09/01/13

## Cais am Wybodaeth

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 21 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn,

*O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn ofyn am wybodaeth am nifer y teithiau o amgylch y Cynulliad a drefnwyd i ymwelwyr dros y blynyddoedd diwethaf.*

*Am bob blwyddyn calendr rhwng 2008 a heddiw, hoffwn wybod yn benodol:*
*- Faint o deithiau o amgylch adeiladau'r Cynulliad a archebwyd ar gyfer ymwelwyr?*
*- Faint o deithiau a drefnwyd i ymwelwyr (a archebwyd, ac na archebwyd, ymlaen llaw)?*
*- Cyfanswm yr ymwelwyr a fu ar daith o amgylch adeiladau'r Cynulliad.*
*- Faint o refeniw a gynhyrchwyd gan y rhai a fu'n ymweld ag adeiladau'r Cynulliad, er enghraifft, drwy daliadau am deithiau, cyfleusterau'r caffi/bwyty, siopau cofroddion etc?  Hefyd, a fyddech cystal â dadansoddi'r refeniw a gynhyrchwyd yn y modd hwn (er enghraifft y swm a gynhyrchwyd drwy'r teithiau; y swm a gynhyrchwyd drwy werthu cofroddion etc)*

Rwyf am ateb pob un o'ch pwyntiau ar wahân isod:

*- Faint o deithiau o amgylch adeiladau'r Cynulliad a archebwyd ar gyfer ymwelwyr?*

**Tabl 1: Nifer y teithiau o amgylch y Cynulliad a archebwyd**

| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 531 | 594 | 612 | 552 | 516 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

*- Faint o deithiau a drefnwyd i ymwelwyr (a archebwyd, ac na archebwyd, ymlaen llaw):*

**Tabl 2: Nifer y teithiau na threfnwyd ymlaen llaw**

| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 1,160 | 1,778 | 1,370 | 898 | 831 |

Mae nifer y teithiau o amgylch y Cynulliad a archebwyd ymlaen llaw i'w gweld yn nhabl 1 uchod.

*Cyfanswm yr ymwelwyr a fu ar daith o amgylch adeiladau'r Cynulliad:*

**Tabl 3 Nifer yr ymwelwyr a fu ar deithiau nad archebwyd ymlaen llaw**

| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 8,143 | 7,064 | 5,918 | 5,066 | 4,333 |

**Tabl 4: Nifer yr ymwelwyr a fu ar daith a archebwyd ymlaen llaw**

| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 10,522 | 12,149 | 14,454 | 13,876 | 11825 |

*- Faint o refeniw a gynhyrchwyd gan y rhai a fu'n ymweld ag adeiladau'r Cynulliad, er enghraifft, drwy daliadau am deithiau, cyfleusterau'r caffi/bwyty, siopau cofroddion etc? Hefyd, a fyddech cystal â dadansoddi'r refeniw a gynhyrchwyd yn y modd hwn (er enghraifft y swm a gynhyrchwyd drwy'r teithiau; y swm a gynhyrchwyd drwy werthu cofroddion etc)*

Nid ydym yn codi tâl am deithiau o amgylch adeiladau'r Cynulliad ac felly nid yw'r gwasanaeth hwn yn cynhyrchu refeniw
Caiff y caffi a'r bwyty eu contractio i gwmni preifat ac ni chedwir data i fesur faint o refeniw y mae ymwelwyr yn ei gynhyrchu.

Ni chaiff y refeniw a gynhyrchir drwy werthu nwyddau yn siop y Cynulliad ei ddadansoddi'n benodol i ddangos pa nwyddau y mae ymwelwyr yn ei brynu. Mae ymwelwyr, Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad yn

defnyddio'r siop. Caiff y refeniw a gynhyrchir gan siop y Cynulliad ei gyhoeddi ar ein gwefan yn ôl blynyddoedd ariannol.

2008-09 (tudalen 36)
http://www.cynulliadcymru.org/national_assembly_for_wales_-_statement_of_accounts_english.doc

2009-10 (tudalen 35)
http://www.cynulliadcymru.org/accounts_e_standalone_final.doc

2010-11 (tudalen 39) cliciwch ar y linc i'r Datganiad Cyfrifon.
http://annualreport2010-11.nafw-server.org/Web/Index.htm

2011-12 (tudalen 41) linc 1af – Cyfrifon Adnoddau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011-12 - Gorffennaf 2012 - PDF
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=4436

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i’ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**